Gwasanaeth Tân ac Achub **De Cymru**

**South Wales** Fire and Rescue Service

**HYFFORDDWR HYFFORDDI GYRWYR**

**Rhif Swydd: 504084**

**Swydd Barhaol – Rhan Amser – 18.5 awr yr wythnos**

**Gradd 10, Cyflog: £34,834 i £35,745 per annum (pro rata)**

Mae'r cyfle uchod wedi codi o fewn ein Hadran Hyfforddi a Datblygu yng Nghanolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd, Heol yr Eglwys, Pentref Llaneirwg, Caerdydd, CF3 6YA.
Mae hwn yn gyfle gwych i unigolion gael profiad a gwybodaeth sylweddol wrth gyflwyno hyfforddiant gyrru golau glas, gweithredu fforch godi, gweithredu craen, gweithredu ATV, gweithredu Tynnu, a sgiliau hyfforddi allweddol eraill i yrwyr.

Bydd y deiliad llwyddiannus ar gyfer y swydd yn gyfrifol am hyfforddi a datblygu personél Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac asiantaethau eraill yn y ddau faes a ganlyn:-

- Cerbydau Nwyddau Mawr (LGV) Cerbyd Ysgafn (LV) Hyfforddiant Gyrwyr Ymateb Brys (ERDT) cerbydau oddi ar y ffordd, Cerbydau Cludo Teithwyr (PCV), cerbydau ysgafn a thynnu trelars.

- Hyfforddwr Hyfforddiant Gyrwyr Cerbydau Arbenigol (cymwys ym mhob categori gwahanol o gerbydau a ddefnyddir gan y gwasanaeth hwn).

Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd ac mae system gweithio hyblyg ar waith.
Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn destun gwiriad DBS boddhaol, Prawf Cyffuriau ac Alcohol a gwiriad trwydded yrru cyn y gwneir unrhyw apwyntiad.

Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein drwy law ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu ar ein gwefan: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/swyddi-gwag-diweddaraf/ Os bydd eisiau fersiwn bapur arnoch, mae croeso i chi anfon e-bost at: personel@decymru-tan.gov.uk. Byddwch yn ymwybodol y bydd y system e-recriwtio yn hysbysu pob ymgeisydd o'r canlyniadau trwy'r cyfeiriad e-bost a ddarperir yn y cais; dylech sicrhau eich bod yn gwirio pob ffolder post yn rheolaidd.

Dylai pob ymgeisydd mewnol sy'n gwneud cais wneud cais trwy law eu porth CORE, gan ddewis "Swyddi Gwag Cyfredol" o'r tab ar y chwith.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â phrofiad a chymwysterau addas fel yr amlinellir ym Manyleb y Person. **Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais yw Dydd Mercher y 3ydd o Orffennaf 2024**. Mae'r dyddiad dethol ar gyfer y swydd wag hon i'w gadarnhau.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac rydym yn croesawu gohebiaeth yn y naill iaith neu'r llall. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam Llunio'r Rhestr Fer yn cael y cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar, a chwestiynau cyfweliad). Bydd trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad a gallai gynnwys Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym am annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.**

Living Wage Employer

disability confident COMMITTED